

## Tasg 1

# Dau lun

### Faint rydych chi'n ei gofio?

1. Mewn parau, atebwch y cwestiynau hyn **heb droi yn ôl at y lluniau**.

#### Llun 1:

- a. Sawl person sydd i'w gweld yn Llun 1?
- b. Beth maen nhw'n ei wisgo?
- c. Ble maen nhw, tybed?
- ch. Beth maen nhw'n ei wneud?
- d. Beth sy'n digwydd yn y llun?
- dd. Sut maen nhw'n teimlo, tybed? Rhowch resymau dros eich ateb.
- e. Beth yw perthynas y bobl â'i gilydd yn eich barn chi?  
Rhowch resymau dros eich ateb.

#### Llun 2:

- a. Sawl person sydd i'w gweld yn Llun 2?
- b. Beth maen nhw'n ei wisgo?
- c. Ble maen nhw, tybed?
- ch. Beth maen nhw'n ei wneud?
- d. Beth sy'n digwydd yn y llun?
- dd. Sut maen nhw'n teimlo, tybed? Rhowch resymau dros eich ateb.
- e. Beth yw perthynas y bobl â'i gilydd yn eich barn chi?  
Rhowch resymau dros eich ateb.

2. Edrychwch ar y lluniau eto i wirio'ch atebion i gwestiynau **a. - d.**  
Cymharwch eich atebion i gwestiynau **dd. - e.** â syniadau grwpiau eraill.

3. Trafodwch:

#### Llun 1:

Tybed pam mae'r merched yn defnyddio'u ffonau?  
Rhowch resymau dros eich ateb.

#### Llun 2:

Tybed pam mae'r dyn ifanc yn defnyddio'i ffôn?  
Rhowch resymau dros eich ateb.

4. Sut mae'r lluniau hyn yn debyg? Sut maen nhw'n wahanol?

Ysgrifennwch frawddegau llawn i ateb y cwestiynau hyn a defnyddiwch rai o'r ymadroddion hyn:

**Sut mae'r lluniau hyn yn debyg?**

Mae'r ddau lun yn dangos ...

Mae Llun 2, fel Llun 1, yn dangos ...

... yn debyg i ...

Mae'r lluniau'n debyg i'w gilydd oherwydd ...

... yn y ddau lun ...

... hefyd ...

... yn ogystal â ... / ... yn ogystal ag ...

**Sut mae'r lluniau hyn yn wahanol?**

Mae Llun 1 yn dangos ... ond mae Llun 2 yn dangos ...

Er bod y ddau lun yn dangos ..., mae ...

Y prif wahaniaeth rhwng y lluniau yw'r ...

Y prif wahaniaeth rhwng y lluniau yw bod ...

Yn y llun cyntaf, mae ... ond yn yr ail lun mae ...

... yn wahanol i ...

... ond ...

... fodd bynnag ...

... ond ar y llaw arall ...

... er enghraifft ...